Y Fi Fawr

Cysyniadau:	**Cyfeillgarwch, dyfalbarhad, gofal, hunan aberth, meddwl am eraill.**
Amcan:	**Dysgu'r plant i fod yn anhunanol ac i feddwl am eraill.**
Cyfarpar:	**Rhoi rhai o'r geiriau sy'n y cyflwyniad ar y bwrdd gwyn.**

Cyflwyniad:

● Cyflwyno'r gair 'hunanol'. Mae rhan gyntaf y gair, 'hunan', yn golygu 'fi fy hun'. Mae nifer o eiriau yn dechrau efo 'hunan'. Rhoi cyfle i'r plant restru geiriau yn dechrau â 'hunan'. Dyma rai enghreifftiau: 'hunanbwysig', 'hunandybus', 'hunangar', 'hunan hyderus', 'hunan-les'.

● Mae'r geiriau hyn i gyd yn cyfeirio at yr unigolyn neu'r hunan. Mae rhywun sy'n hunanbwysig yn meddwl gormod ohono'i hun ac mae rhywun sy'n hunangyfiawn yn sicr yn meddwl nad ydi o'n gwneud cam â neb.

Stori:

Dowch i ni wrando ar stori o Ogledd America.

Amser maith yn ôl roedd y bobl yn llwglyd a thrist. Roedden nhw'n oer. Yr unig le roedd yna dân i'w cynhesu oedd ar gopa'r mynydd. Yno roedd tri gŵr drwg yn byw. Roedd blaidd oedd yn byw ar y paith yn awyddus iawn i bawb fod yn hapus a chynnes.

Un diwrnod dringodd blaidd y paith i fyny i gopa'r mynydd i wylio'r tri gŵr drwg. Bu'n eu gwylio ddydd a nos. Ond doedd y tri gŵr drwg ddim yn cymryd dim sylw o'r blaidd.

Sylwodd y blaidd fod un gŵr drwg yn eistedd wrth y tân ar hyd yr amser. Pan oedd un yn mynd i mewn i'r babell byddai un arall

yn dod i eistedd wrth y tân. Yr unig gyfle i ddwyn y tân oedd pan chwythai'r gwynt yn y bore bach. Yna byddai un o'r dynion drwg yn rhedeg dan grynu i mewn i'r babell gan weiddi, 'Fy mrawd, fy mrawd, tyrd allan i ofalu am y tân.' Ond roedd y brawd yn araf deg.

Rhuthrodd blaidd y paith i lawr y mynydd a galwodd ar griw o anifeiliaid i drafod y mater. Gwyddai, os byddai ef yn dwyn y tân, y byddai'r tri gŵr drwg yn ei erlid i lawr y mynydd. Mynnodd y blaidd fod yn rhaid i'r anifeiliaid eraill ei helpu.

Unwaith eto cerddodd y blaidd yn llechwraidd i fyny'r mynydd. Yr unig beth a welai'r tri gŵr drwg oedd y blaidd yn llercian yn y llwyni.

Pan chwythai gwynt y bore bach dyma'r gŵr drwg oedd ar ddyletswydd yn galw, 'Fy mrawd, fy mrawd, cod o'r gwely a thyrd i ofalu am y tân.' Ond roedd y brawd yn araf deg.

Cipiodd y blaidd y tân a rhedodd nerth ei draed i lawr ochr y mynydd. Roedd y gŵr drwg ar ei warthaf. Cydiodd ym mlaen ei gynffon a hyd y dydd heddiw mae cynffon blaidd y paith yn wyn.

Cyrhaeddodd y blaidd brown. Gafaelodd y blaidd brown yn y tân a llamu i lawr y mynydd. Rhedodd y gŵr drwg ar ôl y blaidd brown. Cyrhaeddodd y blaidd brown y wiwer. Gafaelodd y wiwer yn y tân a llamu o gangen i gangen i lawr y mynydd. Roedd y tân mor boeth fel y llosgodd ei gwegil. Hyd heddiw fe allwch weld y darn tywyll ar ei gwegil. Roedd y tân mor boeth fel y cyrliodd cynffon y wiwer i fyny ei chefn. Sgrialodd y gŵr drwg ar ôl y wiwer.

Ond cyrhaeddodd y wiwer y llyffant. Cymerodd y llyffant y tân yn ei geg a neidiodd i ffwrdd. Sgrialodd y gŵr drwg ar ôl y llyffant. Gafaelodd yng nghynffon y llyffant. Neidiodd y llyffant gan adael ei gynffon yn llaw y gŵr drwg. A dyna pam nad oes gan lyffantod gynffonnau. Ond roedd y gŵr drwg ar warthaf y llyffant. Er mwyn cadw'r tân poerodd y llyffant y tân ar y goeden. Llyncodd y goeden y tân.

Ond doedd y gŵr drwg ddim yn gwybod sut i gael y tân allan o'r goeden. Ond roedd blaidd y paith yn gwybod. Dangosodd blaidd y paith i ddyn sut i gael y tân allan o'r goeden trwy rwbio dau frigyn efo'i gilydd. A dyna sut, hyd heddiw, maen nhw'n medru gwneud tân.

Trafodaeth bellach:

- Pwy oedd yn hunanol/anhunanol yn y stori?

- Tybed wnaeth yr anifeiliaid ddwyn y tân iddyn nhw eu hunain?

- Pam wnaethon nhw ddwyn y tân yn y lle cyntaf?

Emyn: Byd sy'n llawn o hedd: Mwy o Glap a Chân 48

Munud i feddwl:

Y ffordd orau i ddod i'ch adnabod eich hun yw trwy ymgolli yng ngwasanaeth eraill. Mahatma Gandhi

Dywedodd Iesu Grist:
Dylech chi bob amser drin pobl eraill fel byddech chi'n hoffi iddyn nhw'ch trin chi. Mathew 7:12 beibl.net

Myfyrdod/Gweddi:

Helpa ni i feddwl am bobl eraill bob amser. Helpa ni i helpu pobl eraill bob amser. Amen.